Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

# Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028



Fel person ifanc heddiw, fe fydd angen llawer o bethau a chymorth gan wahanol bobl arnat ti iti fedru tyfu i fyny'n **hapus ac yn iach**.

Mae'n debyg dy fod yn yr ysgol heddiw, ble mae'r athrawon yn dy helpu i gael addysg dda. O bryd i'w gilydd rwyt ti wedi bod i weld doctor, deintydd a nyrsys sydd wedi dy helpu i gadw'n iach.

I gael hwyl, mae angen llawer o gyfleoedd arnat ti i gymryd rhan mewn chwaraeon, darllen llyfrau, mynd i'r theatr a mynd i amgueddfeydd.

Os wyt ti'n siarad Cymraeg, efallai yr hoffet ti fedru gwneud y pethau hyn yn Gymraeg.

Rwyt ti hefyd eisiau teimlo'n ddiogel lle'r wyt ti'n byw. Mae arnat ti angen dŵr glân i'w yfed, aer glân i'w anadlu, a bwyd da.

Wrth iti fynd yn hŷn, efallai y byddi di eisiau mynd i'r Coleg neu'r Brifysgol, a byddi di eisiau cael swydd a ffurfio perthnasoedd da.

## Ond dydi pethau ddim bob amser yn hawdd… Mae Ceredigion yn wynebu heriau mawr, pethau fel:

Does dim digon o arian gan rai pobl i brynu pethau pwysig bob dydd

Mae'r pethau sy'n digwydd yn y byd yn effeithio ar ein heconomi

Rydyn ni i gyd yn byw'n hirach, sy'n newyddion da ond mae'n golygu fod yn rhaid inni gadw ein hiechyd yn hirach

Mae iechyd rhai pobl yn wael

Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar bethau fel y tywydd a phrisiau bwyd

Os ydyn ni am ateb yr heriau hyn, rydyn ni'n gwybod na allwn ni ddal ati i wneud pethau fel o'r blaen.

**I newid pethau, mae'n rhaid inni wneud pethau'n wahanol.**

**Dyna pam fod cyfraith newydd gennym yng Nghymru, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**




Mae 72,895 o bobl yn byw yng Ngheredigion

Mae gan Geredigion 90 cilometr o arfordir

Mae 59% o bobl yn byw y tu allan i drefi

Mae 47.3% ohonom yn siarad Cymraeg

Yr incwm cyfartalog yw £22,028

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cymru yw un o'r gwledydd cyntaf i greu deddf fel hon. Yn ôl y Ddeddf mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fel Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Gwasanaeth Tân ac eraill, weithio gyda'i gilydd fel **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** i gyflawni saith nod llesiant.

**I ddangos ein bod yn gweithio at y saith nod llesiant mae'n rhaid inni feddwl am:**


- Beth sy'n digwydd yn y tymor hir
- Sut i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf
- Pa mor gydgysylltiedig all ein gwasanaethau fod
- Sut ydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd
- Sut ydyn ni'n cynnwys pobl mewn penderfyniadau

**1** Mae swyddi gan bawb a does neb yn dlawd.

**2** Rydyn ni'n barod am bethau fel llifogydd.

**3** Mae pawb mor iach â phosib.

**4** Mae cyfle cyfartal gan bawb beth bynnag eu cefndir.




**5** Mae cymunedau'n byw'n hapus gyda'i gilydd.

**6** Digonedd o gyfleoedd i wneud gwahanol bethau, ac yn Gymraeg os wyt ti eisiau.

**7** Gofalu am ein hamgylchedd a meddwl am bobl eraill o amgylch y byd.

# Pwy yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC)?

Mae aelodau'r Bwrdd yn bobl mewn swyddi uwch gyda:

Heddlu Police Dyfed Powys

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyngor Sir Ceredigion County Council

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

colegceredigion

LLGC NLW

Un Llais Cymru One Voice Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Department for Work & Pensions

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion CAVO Ceredigion Association of Voluntary Organisations

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Mid and West Wales Fire and Rescue Service

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Prawf Cymru Wales Probation



**Y Cynghorydd Bryan Davies** yw Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ac mae e'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar beth sydd angen inni ei wneud nawr, a chynllunio hefyd ar gyfer eich dyfodol chi a'r cymunedau lle'r ydych chi'n byw.

Bydd y cynllun hwn yn gwneud inni gyd weithio'n wahanol i gyrraedd y nod, ac mae hynny'n golygu gweithio gyda'n gilydd i roi gwell gwasanaethau i'r bobl sy'n byw yng Ngheredigion.

# Beth sy’n bwysig i aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion?

## Yr iaith Gymraeg

Byddwn yn trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i chi. Byddwn hefyd yn gweithio’n galed i annog pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ymhob rhan o’u bywydau bob dydd ac yn y gymuned.

## Delio ag anghydraddoldeb

Mae pobl yn cael eu trin yn wahanol am lawer o resymau, fel y ffordd maen nhw’n edrych, eu hiaith, o ble maen nhw’n dod, eu hoedran, neu os oes ganddynt anabledd.  Byddwn yn defnyddio’r cynllun hwn i’n helpu i drin pobl yn deg.

## Cynnwys pobl

Rydyn ni eisiau dy gynnwys di wrth benderfynu beth rydyn ni eisiau’i wneud, a rhoi’r cyfle i ti rannu dy farn. Fe fyddwn ni’n defnyddio’r pethau rwyt ti’n eu dweud wrthon ni pan fyddwn ni’n datblygu’r cynllun, a byddwn yn rhoi adborth hefyd pan fedrwn ni.

## Cynaliadwyedd

Bydd y Cynllun hwn yn gwneud yn siŵr y caiff penderfyniadau eu gwneud nawr i wella pethau yn y dyfodol, sy’n golygu bywyd gwell i ti a dy deulu.

## Arwain trwy esiampl



Bydd aelodau’r Bwrdd yn helpu Ceredigion i gyflawni’r cynllun.

# Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028

Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Nghymru greu a chyhoeddi **Cynllun Llesiant Lleol**. Mae'r Cynllun yma'n amlinellu'r pethau y bydd BGC Ceredigion yn cydweithio arnynt dros y pum mlynedd nesaf:

- Ein hamcanion llesiant
- Camau i gyflawni ein hamcanion
- Sut rydyn ni am i Geredigion edrych ymhen 10 mlynedd

Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar **Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2021-2022**, a oedd yn edrych ar yr asedau a'r heriau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu o ran eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Gwrandawyd hefyd ar adborth cymunedau, cydweithwyr y BGC a chyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae **5 maes** y byddwn yn gweithio arnynt i wella lles.

Dyma ein **Hamcanion Llesiant**.



# Ein Hamcanion Llesiant



## Llesiant Economaidd

- Byddwn yn cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.



## Llesiant Amgylcheddol:

- Byddwn yn cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

## Llesiant Cymdeithasol



- Byddwn yn cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.



## Llesiant Diwylliannol

- Byddwn yn cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.



## Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi

- Byddwn yn cydweithio i gyflawni uchelgeisiau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â chaledi, tlodi ac anghydraddoldebau yng Ngheredigion.

# Llesiant Economaidd



Mae pobl ifanc yn gadael y sir i chwilio am swyddi a thai fforddiadwy, tra bod poblogaeth Ceredigion yn mynd yn hŷn. Mae pandemig COVID-19 wedi dangos yr angen i weithio'n hyblyg, a phwysigrwydd cysylltiad digidol ar gyfer busnesau a chymunedau. Mae trafferthion ariannol o ganlyniad i'r pandemig a chostau byw yn cynyddu yn cael effaith ar iechyd corfforol a meddyliol pobl.

Wrth i amser fynd heibio, er mwyn sicrhau bod y sir yn parhau i wneud yn dda, mae'n rhaid inni wella ein seilwaith (fel trafnidiaeth, y rhyngrwyd a thai) i gefnogi cyfleoedd newydd.

## Bydd y BGC yn...

Helpu pobl i ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd i gwrdd â chyfleoedd gyrfaol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac ystyried sut i gryfhau rhaglenni prentisiaeth.

Cydweithio i nodi blaenoriaethau lleol fyddai'n elwa o gyllid (fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU), ac ystyried ffyrdd o gyflawni argymhellion ynglŷn â sut i roi hwb orau i'r economi.

Sicrhau bod pobl yn derbyn gofal ac yn cael eu trin yn deg yn y llefydd maen nhw'n gweithio, a dangos manteision hyn i fusnesau a chymunedau.

# Llesiant Cymdeithasol



Mae ein hiechyd yn cael ei effeithio gan ble rydyn ni'n cael ein geni, yn byw, lle aethon ni i'r ysgol a gwaith, yn ogystal â faint rydyn ni'n cael ein talu a'r ffordd rydyn ni'n cael ein dylanwadu. Mae'r ffactorau hyn weithiau'n golygu nad yw pobl yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, sydd yn cael effaith ar eu cyfleoedd i fyw bywydau iach. Gwnaed hyn yn waeth gan bandemig COVID-19.

Gall treulio amser y tu allan ym myd natur neu yn y gymuned yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, dosbarthiadau celf neu grwpiau cymdeithasol helpu pobl i deimlo'n well. Gelwir hyn yn ragnodi cymdeithasol.

## Bydd y BGC yn…

Helpu pobl mewn ardaloedd lleol i gael mynediad at yr un pethau, gan gynnwys mynediad cyfartal at fwyd iach. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o wneud y system fwyd yng Ngheredigion yn fwy cynaliadwy.

Ystyried beth sydd gan gymunedau eisoes a beth sydd eu hangen arnynt fel eu bod yn cael eu cefnogi'n well, gan ganolbwyntio ar helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu am bethau sylfaenol. Byddwn ni'n hyrwyddo cyfleoedd rhagnodi cymdeithasol a chefnogaeth gymunedol.

Rhoi pŵer i bawb, gan gynnwys pobl ifanc i wella gofodau cymunedol.

# Llesiant Amgylcheddol



Mae newid hinsawdd yn parhau i fod yr her fwyaf yn ein dydd ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae pobl yng Ngheredigion yn mwynhau byd natur ac mae'n chwarae rhan fawr yn eu lles. Mae plant a phobl ifanc eisiau gwarchod ein planed, ac mae eu hymwybyddiaeth a'u pryder yn parhau i dyfu. Maen nhw'n poeni'n arbennig am dipio anghyfreithlon a cholli llefydd gwyrdd.

Mae ein gweithredoedd yn parhau i effeithio ar y blaned ac ar ein hamgylchedd naturiol. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud a'r camau rydyn ni'n eu cymryd nawr fod y rhai cywir ar gyfer y dyfodol.

## Bydd y BGC yn…

Cynnal gweithgarwch datgarboneiddio mewn cymunedau, a gweithio tuag at statws Sero Net erbyn 2030.

Ceisio gwella ansawdd aer, dŵr ac amgylchedd Ceredigion, yn ogystal â diogelu natur, planhigion ac anifeiliaid Ceredigion.

Helpu cymunedau i baratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd fel eu bod yn gallu ymateb ac addasu'n effeithiol.

Gwella sgiliau a hyfforddiant i ofalu am ein hamgylchedd yn well.

# Llesiant Diwylliannol

Mae cysylltiad cryf gydag iaith a diwylliant yng Ngheredigion, a bydd rhoi cyfle i bobl ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg yn golygu bod pobl yn y dyfodol yn gallu siarad yr iaith hefyd. Mae cael hunaniaeth benodol wedi'i chysylltu ag ymdeimlad o gynhwysiant. Mae cael cysylltiad cymdeithasol mewn cymunedau yn gwneud i bobl deimlo'n llai unig ac ynysig, sy'n bwysig iawn mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion.

Er bod y cyfraddau troseddau yng Ngheredigion yn isel, mae pobl yn teimlo'n gryf eu bod eisiau teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

## Bydd y BGC yn...

Cefnogi strategaeth yn y gymuned i annog balchder yn ein diwylliant a'n hanes, a helpu i lunio'r dyfodol. Byddwn ni hefyd yn creu strategaeth newydd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a hybu diwylliant mewn gweithleoedd.

Cynnal arolwg i weld pa fathau o droseddau sydd yn poeni pobl fwyaf, a rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau am densiynau o fewn cymunedau.

Croesawu a chefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Geredigion, yn ogystal ag ymrwymo i gefnogi Cymru Wrth-hiliol.

# Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi



Mae bron i 1 o bob 3 aelwyd yn byw mewn tlodi yng Ngheredigion, ac mae hyn ar gynnydd.  Yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio waethaf yw Gogledd a De Aberystwyth, Aberteifi ac Aberporth. Mewn ardaloedd tlawd, mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael iechyd meddwl gwael. Mae pobl yn poeni am sut i dalu am fwyd, ac mae'n anodd gwresogi llawer o hen dai.

Enillion ac incwm isel, gofal plant fforddiadwy, gostyngiad mewn Credyd Cynhwysol a chostau tai uchel / fforddiadwyedd tai yw prif achosion tlodi yng Ngheredigion.

## Bydd y BGC yn...

Cefnogi pobl sy'n gweld costau byw'n galed, a deall bod tlodi yn cael effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn gweithredu fel llais ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngheredigion, a bydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd adnoddau i gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi yn cael eu rhannu.

Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn cynghori'r BGC am y ffordd orau o gefnogi pobl mewn tlodi drwy'r gwaith a wneir ar draws y 4 Amcan Llesiant arall.

# Camau Nesaf

Mae eich cyfraniadau chi eisoes wedi bod yn help inni ddatblygu'r Cynllun, ac yn awr fe hoffem glywed oddi wrthoch chi unwaith eto.

Cyn inni gymeradwyo'r Cynllun hwn, mae arnom eisiau gwybod eich barn ynglŷn â'r Amcanion Llesiant.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys rhagor o fanylion am sut y gallwch ddweud eich dweud, ewch i:
http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion-2023-28/

Os bydd angen i chi gysylltu â ni neu os bydd angen i chi gael gwybodaeth mewn fformatau eraill, ffoniwch ni ar 01545 570881 neu anfonwch e-bost at clic@ceredigion.gov.uk.
Bydd copïau papur a fersiynau mewn fformatau eraill hefyd ar gael yn holl lyfrgelloedd Ceredigion, gan gynnwys y faniau llyfrgell symudol.



Bydd angen i chi ymateb erbyn **31 Ionawr 2023**.

## Diolch am ddarllen.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

# Cwestiynau Ymgynghori
# Plant a Phobl Ifanc



Gan edrych ar yr **holl Amcanion Llesiant gyda'i gilydd**, a ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

---

---

---

---

---

Gan edrych ar y **<u>CAMAU GWEITHREDU</u>** ar gyfer Llesiant Economaidd  ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Llesiant Economaidd  pa mor dda fydd y camau yn gwella llesiant:

| | **Dim llawer** | | | | | | | | | **Llawer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CHI'N** bersonol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **TEULU** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **CYMUNED** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Y **SIR** ar y cyfan | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

Sut gallech chi helpu?

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Llesiant Cymdeithasol  ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Llesiant Cymdeithasol  pa mor dda fydd y camau yn gwella llesiant:

| | **Dim llawer** | | | | | | | | **Llawer** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CHI'N** bersonol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **TEULU** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **CYMUNED** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Y **SIR** ar y cyfan | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

Sut gallech chi helpu?

-----------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------

Gan edrych ar y **<u>CAMAU GWEITHREDU</u>** ar gyfer Llesiant Amgylcheddol  ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

Gan edrych ar y **<u>CAMAU GWEITHREDU</u>** ar gyfer Llesiant Amgylcheddol  pa mor dda fydd y camau yn gwella llesiant:

| | <u>**Dim llawer**</u> | | | | | | | | | <u>**Llawer**</u> |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CHI'N** bersonol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **TEULU** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **CYMUNED** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Y **SIR** ar y cyfan | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

Sut gallech <u>chi</u> helpu?

-----------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------

-----------------------------------------------------------------------------------------------

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Llesiant Diwylliannol ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Llesiant Diwylliannol pa mor dda fydd y camau yn gwella llesiant:

| | Dim llawer | | | | | | | | | Llawer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CHI'N** bersonol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **TEULU** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **CYMUNED** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Y **SIR** ar y cyfan | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

Sut gallech chi helpu?

---

---

---

Gan edrych ar y <u>**CAMAU GWEITHREDU**</u> ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi  ydych chi'n cytuno â nhw? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

Gan edrych ar y **CAMAU GWEITHREDU** ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi  pa mor dda fydd y camau yn gwella llesiant:

| | Dim llawer | | | | | | | | | Llawer |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CHI'N** bersonol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **TEULU** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Eich **CYMUNED** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Y **SIR** ar y cyfan | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

Sut gallech chi helpu?

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------

# Diolch.

**Bydd eich atebion yn ein helpu i wella lles pobl sy'n byw yng Ngheredigion nawr, ac yn y dyfodol.**




**Cysylltwch â ni:**

**Post:**
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn:**
01545 570881

**E-bost:**
partnerships@ceredigion.gov.uk


**Gwybodaeth bellach:**
[http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion-2023-28/](http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/cynllun-llesiant-lleol-ceredigion-2023-28/)


*Cydnabyddiaethau:*
Lluniau gan Freepik.com